

## 2018 Rhif (Cy.)

### TRAFFIC FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2018

*Gwnaed* *Chwefror 2018*  
*Yn dod i rym* *5 Mawrth 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A5 Llundain i Gaerybi, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2018 a daw i rym ar 5 Mawrth 2018.

**2. Yn y Gorchymyn hwn:**

- ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:  
(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(2);

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrrd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrrd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.  
(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysodaeth 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

## 2018 No. (W.)

### ROAD TRAFFIC, WALES

The A5 Trunk Road (London Road, Corwen, Denbighshire) (40 mph Speed Limit) Order 2018

*Made* *February 2018*  
*Coming into force* *5 March 2018*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 London to Holyhead Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

#### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A5 Trunk Road (London Road, Corwen, Denbighshire) (40 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 5 March 2018.

**2. In this Order:**

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.  
(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchymion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “*y gefnffordd*” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi; ystyr “*lluoedd arbennig*” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r luoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“*the trunk road*” (“*y gefnffordd*”) means the A5 London to Holyhead Trunk Road.

## Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yng Nghorwen, Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt 700 metr i'r dwyrain o ganolbwyt ei chyffordd â'r Lôn Las/Green Lane hyd at bwynt 460 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwyt y gyffordd honno.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

February 2018

## Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road at Corwen, Denbighshire that extends from a point 700 metres east of the centre-point of its junction with y Lôn Las/Green Lane to a point 460 metres east of the centre-point of that junction.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

Chwefror 2018

*Nina Ley*  
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

*Nina Ley*  
Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (HEOL LLUNDAIN, CORWEN, SIR DDINBYCH) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 5 Mawrth 2018.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 yng Nghorwen, Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt 700 metr i'r dwyrain o ganolbwyt ei chyffordd â'r Lôn Las/Green Lane hyd at bwynt 460 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwyt y gyffordd honno.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 1 Mawrth 2018, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Corwen, Heol Llundai, Corwen LL21 0DR neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1308945.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (LONDON ROAD, CORWEN, DENBIGHSHIRE) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 5 March 2018.

The effect of the Order is to introduce a 40 mph speed limit on the length of the A5 trunk road at Corwen, Denbighshire that extends from a point 700 metres east of the centre-point of its junction with y Lôn Las/Green Lane to a point 460 metres east of the centre-point of that junction.

During a period of 6 weeks from 1 March 2018 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Corwen Library, London Road, Corwen LL21 0DR or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1308945.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government